# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2012 (2:00pm)**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd E. G. Davies - Is-Gadeirydd (<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, Jim Evans, D. R. Hughes, Ff. M. Hughes, K. P. Hughes, R. Ll. Hughes, T. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, T. H. Jones, C. McGregor, Rhian Medi, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, P. S. Rogers, E. Schofield, H. W. Thomas, J. P. Williams, S. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Dirprwy Brif Weithredwraig Dros Dro<br>Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddiaeth<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynwyr Margaret Foster, M Giannasi a Gareth Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Keith Evans, C. Ll. Everett, R. Dylan Jones, J. A. Roberts, Ieuan Williams; Y Comisiynwyr Alex Aldridge a Byron Davies. |

---

Draft

## 1 CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R. Ll. Jones yn Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2012/13.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, addawodd i'r Cyngor y byddai'n cyflawni ei ddyletswyddau hyd eithaf ei allu. Manteisiodd y Cynghorydd Jones hefyd ar y cyfle i dalu teyrnged i'r Cadeirydd a oedd yn ymddeol, sef y Cynghorydd Gwilym O. Jones am ei ymrwymiad yn cynrychioli'r Cyngor Sir trwy gydol ei gyfnod yn y swydd.

Diolchodd y Cynghorydd Gwilym O. Jones, y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, i'r holl Aelodau a holl Swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Rhoddodd crynodeb o'i ddyletswyddau fel Cadeirydd gan gynnwys cynrychioli'r Cyngor Sir mewn gwahanol achlysuron trwy gydol y flwyddyn. Dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Jones ac roedd yn gobeithio y byddai ef hefyd yn mwynhau cyfnod hapus a llwyddiannus yn y swydd.

## 2 IS-GADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cyflwyno enw'r Cynghorydd E. G. Davies ar gyfer swydd Is-Gadeirydd y Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd E. G. Davies yn Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2012/13.**

Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r Aelodau am eu hyder ynddo ac am eu geiriau caredig iawn. Dywedodd ei fod yn bwriadu cydweithio gyda'r Cadeirydd newydd a'i gefnogi.

## 3 PENODI ARWEINYDD AR GYFER Y CYNGOR SIR

Cynigiodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE y dylid ailbenodi'r Cynghorydd Bryan Owen fel Arweinydd y Cyngor hyd nes y cynhelir yr Etholiad Llywodraeth Leol nesaf ym Môn ym Mai 2013. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd A. Morris Jones.

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Bryan Owen fel Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn hyd nes y cynhelir Etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2013.**

Diolchodd y Cynghorydd Owen i'r Cyngor am y fraint o gael ei ailethol yn Arweinydd y Cyngor Sir am 12 mis ac achubodd ar y cyfle i dalu teyrnged i'r cydweithio a oedd yn digwydd rhwng y Comisiynwyr, yr Aelodau a'r Swyddogion i symud y Cyngor hwn yn ei flaen. Achubodd ar y cyfle i longyfarch Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn dilyn eu penodiadau heddiw a diolchodd hefyd i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau eu grwpiau am eu cydweithrediad dros y 12 mis diwethaf. Roedd yn edrych ymlaen at barhad eu cydweithrediad.

## 4 PENODI DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR SIR

Dywedodd yr Arweinydd na fyddai'n enwi Dirprwy Arweinydd y Cyngor hyd nes y cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir a gynhelir ddydd Iau nesaf.

## 5 CYHOEDDIADAU

Dim.

## 6 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

## 7 DATGANIAD GAN YR ARWEINYDD / AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd mewn sefyllfa i enwi'r Aelodau yr oedd wedi ei ddewis i wasanaethau ar y Pwyllgor Gwaith heddiw ond y byddai gwneud hynny yn y cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir a gynhelir ddydd Iau nesaf.

## 8 CADARNHAU'R PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodiad y strwythur Pwyllgorau cyfredol fel y cyfeirir ato Adran 3.4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- *Pwyllgorau Sgriwtini*
- *Panel Tâl a Graddfeydd a sefydlir gan y Cyngor Sir*
- *Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau*
- *Pwyllgor Safonau*
- *Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol*
- *Cydbwyllgor Anghenion Addysg Arbennig*
- *Cydbwyllgor Polisi Cynllunio.*

Draft

## 9 CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

Cadarnhaodd y Cadeirydd y rhan o'r Cynllun Dirprwyo yr oedd y Cyfansoddiad yn nodi bod angen i'r Cyngor ei gytuno (fel yr amlinellwyd ym Mharagraff 3.2 y Cyfansoddiad).

## 10 RHAGLEN O GYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR SIR

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor am y flwyddyn i ddod:-

| | | |
|---|---|---|
| **27 Medi 2012** | **-** | **2:00pm** |
| **6 Rhagfyr 2012** | **-** | **2:00pm** |
| **5 Mawrth 2013** | **-** | **2:00pm** |
| **9 Mai 2013** | **-** | **10:30am a 2:00pm (Cyfarfod Blynyddol)** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 2:45pm**

**Y CYNGHORYDD R. LL. JONES**
**CADEIRYDD**

Draft